Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Abergele
# Canolfan Y Morfa
# Ffordd Y Morfa
# Abergele
# Conwy
# LL22 7NU

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan


## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/08/2018**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Abergele wedi'i leoli mewn caban ar dir Ysgol Glan Morfa yn nhref Abergele yn awdurdod lleol Conwy.  Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 52 plentyn ar unrhyw adeg benodol.  Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore a phedwar prynhawn yr wythnos ar gyfer plant dwy a thair oed.

Saesneg yw'r iaith a siaredir gartref gan y rhan fwyaf o'r plant ac mae bron pob un yn dod o gefndir gwyn Prydeinig.  Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cefnogir addysg y plant gan ddau ymarferydd amser llawn ac un rhan amser.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal (AGC) Cymru ym mis Chwefror 2017.  Arolygwyd y lleoliad gan Estyn yn Ebrill 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- medrau rhifedd, llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda o'u mannau cychwyn
- ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu eang a chytbwys
- ymarferwyr yn gosod pwyslais cryf ar ddysgu drwy chwarae a datrys problemau ymarferol
- bron pob un o'r plant yn hapus iawn ac yn teimlo'n ddiogel a bod perthynas dda iawn yn bodoli rhwng oedolion a phlant
- rhan fwyaf o'r plant yn gwrando'n briodol ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda
- y lleoliad yn rhoi gwerth da am arian

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir sy'n seiliedig ar adnabyddiaeth gadarn o gryfderau lleoliad a mwyafrif o'r meysydd sydd angen gwella
- bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n gydwybodol er lles y plant
- gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau
- gan y pwyllgor rheoli gwybodaeth gadarn am yr hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn y lleoliad
- yr ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o ystod eang o bartneriaethau ac asiantaethau cymorth allanol
- ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn eu rhoi ar waith yn frwdfrydig

## Argymhellion

A1 Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau llafar Cymraeg y plant yn fwriadus

A2 Sicrhau bod staff yn herio'r plant yn rheolaidd i ymateb yn fwy hyderus i gwestiynau yn y Gymraeg

A3 Sicrhau bod y prosesau hunanarfarnu yn fwy arfarnol ac yn adnabod materion datblygu'n gliriach fel bod gwell cyswllt rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adalw dysgu blaenorol yn effeithiol ac yn dyfalbarhau i gwblhau tasgau yn annibynnol. Yn ystod y gweithgareddau hyn, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymchwilio'n hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dewis mynd i nôl llyfr ac yn troi tudalennau'n gywir, er enghraifft wrth ddarllen i'w gilydd yn y guddfan. Maent yn dangos diddordeb a brwdfrydedd mewn llyfrau stori a llyfrau gwybodaeth ac yn mwynhau'r cynnwys. Maent yn gwrando'n briodol ar storïau ac yn ymuno'n bwrpasol yn y stori ac wrth ymuno i ganu caneuon dosbarth. Mae rhan fwyaf o'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda, er enghraifft wrth goginio yn y gegin fwd neu wrth ddyfrio planhigion yn yr ardd. Wrth chwarae rôl yn y tŷ a'r siop, mae rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith addas i'r sefyllfa. Mae'r rhan fwyaf yn trin ystod o offer bach a chyfarpar ysgrifennu yn hyderus ac mae llawer ohonynt yn cychwyn deall bod diben i ysgrifennu. Er enghraifft, mae ychydig yn ymdrechu'n llwyddiannus i ysgrifennu llythyr syml at riant yn yr ardal o dan y bondo. Mae llawer o'r plant yn defnyddio geiriau Cymraeg elfennol yn annibynnol wrth siarad ag oedolion yn yr ardaloedd dysgu. Maent yn hyderus wrth ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd, er enghraifft wrth esbonio sawl pot ddŵr sydd angen i lenwi'r twb. Fodd bynnag, nid yw ymatebion mwyafrif o'r plant, i gwestiynau'r ymarferwyr yn y Gymraeg, yn ddigon ymestynnol, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae medrau rhif llawer o'r plant yn datblygu'n dda ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn adrodd rhifau i ddeg yn gywir wrth gyfri faint o blant sy'n bresennol a'r platiau sydd eu hangen adeg byrbryd. Mae lleiafrif yn dechrau adnabod rhifau i bump ac yn eu cyfateb yn llwyddiannus wrth gyfri blodau a hadau yn yr ardal tu allan. Mae llawer yn adnabod siâp dau ddimensiwn yn dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus er mwyn creu siapiau penodol, er enghraifft wrth adeiladu tŷ lindys.

Mae llawer o'r plant yn hyderus wrth ddefnyddio cyfarpar TGCh. Maent yn rheoli symudiadau tegan electronig yn gywir ac yn defnyddio bysellfwrdd yn gywir er mwyn symud tudalen ar lyfr electronig a thynnu llun. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn recordio llais i flwch TGCh yn llwyddiannus.

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant fedrau corfforol datblygedig. Maent yn symud beiciau yn bwrpasol ar hyd y buarth gan gadw at lwybr arbennig. Mae ychydig o'r plant mwyaf hyderus yn dechrau defnyddio pedalau ac yn datblygu medrau cydbwyso cadarn. Mae medrau datrys problemau llawer o'r plant yn datblygu'n dda; er enghraifft, mae llawer yn dyfalu ffyrdd llwyddiannus o symud o un ochr boncyff coeden i'r llall heb gyffwrdd y llawr.

Mae llawer o'r plant yn dechrau datblygu'n ddysgwyr annibynnol wrth gymryd rhan weithredol yn eu dysgu, er enghraifft wrth ysgrifennu gwahoddiad i barti pili pala. Maent yn datblygu hyn drwy wneud dewisiadau am yr hyn maent yn ei hoffi yn ystod amser byrbryd ac adeg dewis gweithgareddau rhydd.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn ymgyfarwyddo â threfn y dydd yn gyflym. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig ac yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn gosod offer mathemategol at ei gilydd i gyfateb rhif ac yn chwarae rôl yn yr ardal guddfan o dan y coed.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda, yn enwedig yn ystod gweithgareddau ffocws stori a chanu a gweithgareddau mesur yn yr awyr agored. Maent yn dangos cwrteisi tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae llawer o'r plant yn dechrau gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei wneud yn ystod gweithgareddau rhydd. Maent yn cymryd eu tro yn dda, yn rhannu ac yn cynorthwyo i dacluso pan ofynnir iddynt.

Yn ystod amser byrbryd, mae rhan fwyaf o'r plant yn arddangos medrau cymdeithasol da ac yn dweud 'diolch' a 'plîs' wrth dderbyn a gweini bwyd a diod. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth briodol o'r angen i gadw'n heini ac yn deall bod bwyta bwydydd iach fel ffrwythau a llysiau ac yfed dŵr yn cyfrannu tuag at fywydau iachus. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr gydag anogaeth gan yr ymarferwyr ar ôl defnyddio'r tŷ bach a chyn bwyta. Mae hyn yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gadarn sydd gan bron pob un o bwysigrwydd hylendid er mwyn atal heintiau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen sy'n cael eu hadlewyrchu'n gryf yn ansawdd y cwricwlwm a'r gweithgareddau a ddarperir. Maent yn cynllunio ystod o brofiadau diddorol ac apelgar ar draws yr holl feysydd dysgu sy'n bodloni gofynion ac yn creu diddordeb ymysg y plant tuag at ddysgu.

Mae darpariaeth gydlynus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant wedi ei gwreiddio'n gadarn yn eu profiadau dysgu a diddordebau pob plentyn. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n briodol i wneud defnydd gwerthfawr o adnoddau sy'n gyfarwydd i'r plant, yn enwedig yn yr ardaloedd adeiladu, darganfod a chreadigol.

Mae'r cynlluniau yn nodi amcanion dysgu ar gyfer gweithgareddau yn glir ac yn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o'r plant. Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi cyflwyno cyfleoedd priodol i blant gynnig eu syniadau i'r cynlluniau, er enghraifft wrth ddatblygu ardaloedd dringo y tu allan. Mae hyn yn datblygu hyder ac annibyniaeth mwyafrif o'r plant yn briodol.

Mae'r gweithgareddau dyddiol yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd cadarn i'r plant gyfrif blociau yn yr ardal adeiladu, dewis cynhwysion i goginio yn y gegin fwd a chyfri potiau dŵr yn annibynnol. Mae hyn cael effaith dda ar fedrau rhifedd llawer o'r plant.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau her ddigonol, yn enwedig i'r plant mwy abl. Nid ydynt yn cynllunio'n ddigon manwl er mwyn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau llafar yn fwriadus. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cyson i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw'r modd mae ymarferwyr yn cyflwyno dathliadau fel dydd gŵyl Ddewi a Santes Dwynwen i'r plant ac yn adrodd storïau o'r Mabinogion iddynt. Mae'r plant yn gyfarwydd â Mr Urdd ac yn cystadlu yng nghyngerdd ffarwelio y plant Meithrin yn neuadd Ysgol Glan Morfa. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth briodol o'u hanes a'u treftadaeth.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o ymwelwyr fel nyrs a swyddogion o'r heddlu ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffordd. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth addas y plant o'r bobl sydd yn ein helpu.

### Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn gwneud defnydd da o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i lywio'r dysgu. Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau o dan arweiniad yr oedolion a gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis eu hunain. Mae'r gweithgareddau yn cadw diddordeb y rhan fwyaf o blant yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i ddyfalbarhau â'u tasgau yn annibynnol, er enghraifft wrth iddynt chwilio am y lindys yn y sbageti ac wrth lenwi'r colandr â phibellau glanhau.

Un o gryfderau'r cylch yw'r berthynas hyfryd sy'n bodoli rhwng y staff a'r plant. Maent yn rheoli ymddygiad yn sensitif ac yn deall anghenion y plant yn dda. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at eu ffrindiau drwy rannu adnoddau ac wrth gyd-chwarae yn llwyddiannus.

Mae pob ymarferydd yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda, yn cyflwyno geirfa newydd i'r plant yn ddyddiol ac yn defnyddio caneuon yn addas i ddysgu patrymau. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i gyflwyno ac ymestyn y patrymau hyn na brawddegau newydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn datblygu hyder yn eu medrau llafar.

Mae gweithdrefnau asesu'r lleoliad yn datblygu'n effeithiol ac mae bron bob un o'r ymarferwyr yn cyfrannu'n effeithiol at y broses. Mae asesiadau yn ystod gweithgareddau ffocws yn ddefnyddiol ac yn cyfrannu'n briodol at gynllunio camau nesaf yn y dysgu.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn briodol am gyflawniadau eu plant trwy ddeialog dyddiol werthfawr rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a noson agored er mwyn trafod cynnydd. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae'r arweinydd yn darparu adroddiad defnyddiol ar gynnydd y plant i'w rhieni.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau'r lleoliad i hyrwyddo byw yn iach yn gadarn. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth plant o bwysigrwydd bwyta'n

iach, er enghraifft drwy'r fenter Siop Sali Mali. Mae'r lleoliad yn sicrhau cyfleoedd da i blant frwsio'u dannedd yn ddyddiol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o'r plant ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd edrych ar ôl eu dannedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau lles, datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn datblygu'n dda. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau, er enghraifft wrth astudio gŵyl Diwali, y flwyddyn newydd Tsieineaidd a stori Handa o Affrica.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cadarn i blant i ailgylchu papur, cardfwrdd, bwyd a phlastig. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn briodol.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau cymdeithasol y plant yn dda yn ystod y cyfnod byrbryd. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb wrth weithredu fel helpwr heddiw. Yn ogystal, mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion o aflonyddwch neu ymddygiad anghyfrifol er mwyn atgyfnerthu disgyblaeth dderbyniol. Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel. Mae'r ymarferwyr yn ofalus pan fydd y plant yn cyrraedd ac yn cael eu casglu ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch ofalgar a chartrefol yn bodoli o fewn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn fel tîm i greu ethos sy'n gynhwysol lle rhoddir blaenoriaeth uchel i les plant. O ganlyniad, mae plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchfyd deniadol ac ysgogol. Mae'r ardaloedd darpariaeth barhaus yn cynnig cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o arddangosfeydd lliwgar a deniadol er mwyn atgyfnerthu'r dysgu a dathlu gwaith y plant yn dda.

Mae gan y plant fynediad dyddiol i ardal allanol symbylol ac ysgogol sy'n cynnwys amrywiaeth helaeth o adnoddau i sbarduno'r dysgu. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau'n fwriadus er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant yn yr ardal hon. Er enghraifft, maent yn cyflwyno geirfa a rhifau newydd yn yr ardal adeiladu ac yn datblygu dealltwriaeth y plant o siapiau a rhif yn y guddfan, y tywod ac yn yr ardd fach.

Mae'r gweithgareddau a phrofiadau yn cynnig cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm i bob plentyn sy'n sicrhau eu bod yn cydweithio'n dda â'i gilydd.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd wedi sefydlu gweledigaeth glir lle mae pawb yn cydweithio'n dda i sicrhau profiadau gwerthfawr i'r plant yn eu gofal. Mae wedi llwyddo i feithrin ysbryd o gydweithio clòs ymysg y staff. Mae disgrifiadau swydd yr holl ymarferwyr yn briodol ac mae'r arweinydd yn sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau. Mae hyn yn galluogi'r ymarferwyr i fodloni anghenion y plant yn effeithiol a hyrwyddo eu cynnydd a'u datblygiadau personol yn synhwyrol. Mae'r arweinydd yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn cydweithio'n fwriadus i ddarparu safon dda o ofal ac addysg. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer rheoli perfformiad y staff yn briodol ac yn cyfrannu'n addas at ddatblygu gweithlu effeithiol.

Mae gan swyddogion y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am yr hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn y lleoliad. Dros y blynyddoedd, mae aelodau'r pwyllgor wedi sicrhau arweinyddiaeth a staff sefydlog a chadarn. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r ymarferwyr i sicrhau gweledigaeth glir a chytûn. Mae gan y pwyllgor rheoli gyfeiriad strategol clir ac maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Yn eu rôl, maent yn cydweithio â'r arweinydd i gynnal y safonau, y ddarpariaeth ac yn gofalu bod trefniadau ar gyfer diogelu plant yn effeithiol. O ganlyniad, mae prosesau'r lleoliad yn gadarn ac mae pwyslais clir ar adnabod a bodloni anghenion y plant.

Mae'r lleoliad yn talu sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys datblygu'r ardal tu allan ac annog plant i fwyta ac yfed yn iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd yn adnabod y lleoliad yn dda. Mae trefniadau hunanarfarnu yn gadarn ac wedi'u gwreiddio yn nhrefniadau'r lleoliad ar gyfer gwelliant. Mae'n cynnwys yr holl ymarferwyr yn ogystal â barn y rhieni. Mae'r arweinydd yn ystyried y mewnbwn gwerthfawr hwn yn barhaus er mwyn datblygu cynllun gwella sydd yn canolbwyntio ar wella deilliannau pob plentyn a pherfformiad ymarferwyr. Mae'r arweinydd yn ymateb i ddyheadau'r rhieni yn rheolaidd ac wedi cryfhau'r berthynas rhyngddynt a'r lleoliad trwy ddarparu arweiniad ac adnoddau buddiol i'w galluogi i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant.

Mae'r arweinydd yn cydweithio'n dda ag aelodau o'r pwyllgor rheoli, ynghyd â swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, i gasglu gwybodaeth briodol am y lleoliad. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn synhwyrol er mwyn llunio adroddiad hunanarfarnu sy'n adnabod y rhan fwyaf o'r cryfderau ynghyd â mwyafrif o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae gan y cynllun ffocws clir ar godi safonau medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Mae'n cynnwys camau gweithredu, terfynau amser ynghyd â chyfrifoldebau a meini prawf llwyddiant priodol. Fodd bynnag, nid oes cysylltiad ddigon clir rhwng blaenoriaethu'r cynllun datblygu a deilliannau'r hunanarfarnu ac nid yw'r targedau ar bob achlysur yn ddigon mesuradwy er mwyn monitro a mesur cynnydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn adeiladu'n bwrpasol ar ystod o bartneriaethau buddiol iawn. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith dda ar safonau a lles plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth.

Mae partneriaethau gyda rhieni yn effeithio'n gadarnhaol ar waith y lleoliad. Mae rhieni newydd yn derbyn pecyn gwybodaeth defnyddiol sy'n hwyluso'r cam o'r cartref i'r lleoliad drwy ddarparu gwybodaeth angenrheidiol. Gwneir defnydd buddiol o hysbysfwrdd yn y cyntedd i rannu gwybodaeth o ddydd i ddydd. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r lleoliad ac yn codi arian yn gyson er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Mae rhieni wedi adeiladu cegin fwd fuddiol yn yr ardal tu allan er mwyn datblygu medrau annibynnol a chreadigol y plant. Mae'r lleoliad wedi datblygu cysylltiadau buddiol gyda busnesau lleol sy'n cyfrannu'n achlysurol tuag at brynu adnoddau pwrpasol sy'n cryfhau'r ddarpariaeth ac i wella cyfleusterau. Mae hyn yn cynnwys offer chwarae rôl, doliau amlddiwylliannol a charped lliwgar yn yr ardal stori.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cefnogol iawn gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r partneriaethau hyn yn cydweithio'n agos â'r pwyllgor rheoli i wella a datblygu arweinyddiaeth a staffio yn y lleoliad.

Mae'r bartneriaeth sy'n bodoli gyda'r ysgol leol yn fuddiol iawn. Mae'r plant yn elwa'n fawr o'r bartneriaeth ac, o ganlyniad i'r ymweliadau cyson, maent yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau'r ysgol cyn cychwyn yno.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod gan y lleoliad staff parhaol sydd â chymwysterau addas i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen. Mae hi'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar drefnu hyfforddiant sy'n seiliedig ar werthusiad priodol a chytbwys o anghenion y lleoliad a datblygiad proffesiynol ymarferwyr. Mae holl ymarferwyr y lleoliad yn gweithio'n effeithiol fel tîm.

Mae'r lleoliad wedi gosod sylfaen gadarn yn ei lle i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu. Mae digon o adnoddau o ansawdd da o fewn y lleoliad er mwyn ateb gofynion y chwe maes dysgu. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau diddorol o ansawdd da ac adnoddau helaeth i'w helpu i ddysgu yn yr awyr agored. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r adnoddau yn yr ardaloedd dysgu a chwarae y tu mewn a thu allan.

Yng ngoleuni'r deilliannau a gyflawnir gan y plant a'r gweithdrefnau y mae'r arweinydd wedi eu sefydlu, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i’r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy’n anelu at roi’r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau’r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |